06/11/2008

Mr Simon Smith - Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Annwyl Mr Smith,

**ADRODDIAD MONITRO 2007/08 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Diolch yn fawr am yr adroddiad uchod. Mae sylwadau manwl ynghlwm gyda'r llythyr hwn, ond mae ambell beth i'w nodi cyn hynny.

Yn gyntaf hoffwn gymeradwyo'r Awdurdod ar gyflwyno adroddiad cynhwysfawr sy'n dilyn y fformat a gytunwyd gyda'r Bwrdd. Credwn fod yr adroddiad ar y cyfan yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a phenodol a'i fod yn amlygu cynnydd yng ngweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2007/08.

Credwn fod elfennau o arfer da yn yr adroddiad. Croesawn yn enwedig ymagwedd y Gwasanaeth at sgiliau ac at sicrhau ei fod yn sefydliad sydd â chapasiti i gynnig gwasanaethau dwyieithog.

Y cam arferol nesaf yw i ni gynnal cyfarfod adborth yn y dyfodol agos, er mwyn trafod materion yn codi o'r adroddiad ac o'r ymateb yma. Byddaf mewn cyswllt yn fuan i drefnu dyddiad.

Yn y cyfamser os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn, yna mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

**GARETH SMITH**
*Uned Llywodraeth yng Nghymru*

Cc. Colin Hanks, Dirprwy Brif Swyddog Tân;
Tracey Williams, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol;
Lois Jones, Cyfieithydd/Tiwtor Iaith.

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg 2007-08**
**Sylwadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Tachwedd 2008**

| Adran | Sylw |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | |
| tud. 2 | Cytunwn fod llunio'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, a chreu swydd newydd Hwyluswr Ymwybyddiaeth yr Iaith Gymraeg yn ddatblygiadau o bwys, ac fe gymeradwywn y Gwasanaeth amdanynt. Ydy'r rôl yma yn un parhaol? |
| | Mae hefyd yn dda iawn gweld y Gwasanaeth yn cynyddu capasiti iaith Gymraeg y sefydliad trwy sicrhau bod gan staff y gallu i ddangos cwrteisi iaith sylfaenol, os nad â sgiliau iaith. Dyma ddatblygiad arall cymeradwy, sydd o bwys. |
| | Rhaid hefyd nodi fod yna ddatblygiadau clodwiw wrth adnabod anghenion hyfforddiant, a chynnwys y Gymraeg yn rhan hanfodol o Adolygiadau Datblygu Unigol. Hefyd, da yw gweld y Gwasanaeth yn cymryd gorolwg corfforaethol wrth anfon yr holiadur ar gymwyseddau ieithyddol. |
| **2. Rheolaeth a Gweinyddiad y Cynllun** | |
| tud. 4 | Amlyga'r wybodaeth a adroddir yma fod yna drefniant effeithiol mewn lle er mwyn gweithredu'r agenda iaith Gymraeg. Ymddengys bod yna gyfuniad effeithiol o arweiniad strategol a chymorth gweithredol ac ymarferol yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun. |
| **3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg** | |
| | Ar gyfer adrannau lle na wnaethpwyd sylw, derbyniwn y wybodaeth a adroddir. |
| tud. 5. Hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol | Fel nodwyd eisioes, croesawn y datblygiad o greu swydd newydd, sef Hwyluswr Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith.<br><br>Mae'n dda iawn gweld bod y Gwasanaeth wedi sicrhau bod ei fewnrwyd yn ddwyieithog hefyd. |
| tud. 5. Hyrwyddo'r Cynllun yn allanol | Braf iawn yw gweld fod y gwefan yn gwbl ddwyieithog. |
| | Hoffwn wybod mwy am y broses contractio gwasanaethau allan os gwelwch yn dda. Pa wasanaethau a rhoddir allan ar gontract? Ydynt yn rhai fel gosod arwyddion yn unig, neu a oes gwasanaethau wyneb i wyneb yn cael ei rhoi allan hefyd? Pwysig iawn, yn amlwg, yw sicrhau bod unrhyw bartner sydd yn darparu gwasanaeth ar ran y Gwasanaeth yn gwneud i safon y bydda'r Gwasanaeth yn disgwyl, ac yn gwneud yn unol â Chynllun Iaith y Gwasanaeth. Pa drefniadau monitro sydd mewn lle gyda chi i wirio hyn?<br><br>A fyddai modd i ni dderbyn copi o'r daflen ddwyieithog a rhoddir i gontractwyr, er ein gwybodaeth, os gwelwch yn dda? |
| | System o gyfarwyddyd ysgrifenedig ar gyfer asiantaethau a chontractwyr allanol: Ni adroddwyd unrhyw wybodaeth yn erbyn y dasg yma. Gallwch gynnig |

| | |
|---|---|
| | diweddariad os gwelwch yn dda? |
| Tud, 6. Darparu'r isadeiledd mewnol | Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Gwasanaeth, a'r Gwasanaethau arall, wrth ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Iaith a'r Strategaeth Sgiliau. |
| tud. 7. Gwneud i hyn ddigwydd | Er gwybodaeth, ac i'ch cynorthwyo, mae *Cyngor ar Brif Ffrydio'r Iaith Gymraeg* y Bwrdd ar gael o'n gwefan, gyda chopïau caled hefyd ar gael ar gais: http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/cymraeg/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/5146.pdf |
| tud. 7 - 8. Gwneud i hyn ddigwydd | Hoffwn dderbyn gopi o adroddiad y cwmni allanol a ymchwiliodd i anghenion ieithyddol gwahanol fathau o swyddi'r Gwasanaeth, os ydych yn fodlon rhannu ef â ni plîs. Rydym falch o weld y gwaith yma'n digwydd ac yn hapus i gynnig cymorth a sylwadau pe bai angen. |
| Cyffredinol | Sylwn fod nifer o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer targedau'r Cynllun wedi newid o'r hyn sydd yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Iaith. Gallwn weld o'r adroddiad bod yna lawer o waith yn digwydd ynghlwm â phob elfen o weithredu'r Cynllun, a bod llawer o'r diwygio targedau wedi digwydd oherwydd y Strategaeth Sgiliau Iaith, felly gallwn weld pam y bu newid i'r targedau. Serch hynny, ac fel mater o drefn, gofynnwn i chi yn adroddiadau'r dyfodol i nodi amserlen wreiddiol y Cynllun yn yr adroddiad, ac yna cynnig esboniad am pam dylid diwygio'r amserlen. |
| **4. Asesiad Risg** | |
| tud. 11 | Teg yw dweud y bu yna lawer o ganmol yn adroddiad y Bwrdd yn dilyn ar asesiad risg, a gwelwn o'r gwaith sydd ar fynd bod y Gwasanaeth yn weithgar iawn yn y maes sgiliau.<br><br>Argymhelliad 1: Wrth nodi fod y gwaith yn unol â'r argymhelliad yma ar fynd, a oes unrhyw waith arall i nodi, neu ydy'r Strategaeth Sgiliau Iaith, a'r gwaith ar ofynion ieithyddol swyddi ac ati yn cwrdd â'r angen?<br><br>Argymhelliad 2: Diolch am y diweddariad yma. |
| **5. Dangosyddion perfformiad Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** | |
| DP 1 | Oes yna reswm pam na chofnodwyd dewis iaith ar gyfer pob digwyddiad? |
| DP 2 | Cymeradwywn y gwaith yma, a braf yw gweld ymateb da i'r holiadur gyda nifer sylweddol wedi ei ddychwelyd. |
| DP 3 | Mae'n dda gweld cam cadarn tuag at warantu gwasanaeth Cymraeg trwy wneud holl swyddi'r dderbynfa'n rhai Cymraeg hanfodol. Faint o swyddi sydd? Mae'r dangosydd yn gofyn am nifer a chanran os gwelwch yn dda.<br><br>Beth ddigwyddodd wrth benodi'r ymgeisydd nad oedd â'r sgiliau? Oedd yna ddisgwyliadau neu amodau yn ymwneud â hyfforddiant? |
| DP 4 | Iawn, derbyniwn hyn gan fod hyfforddiant yn, neu ar ddigwydd. Edrychwn ymlaen at weld ffigyrau yn yr adroddiad nesaf. |
| DP 5 | Derbyniwn pam na adroddir y wybodaeth yma eleni, tra bod gwaith ar y gweill i |

| | |
|---|---|
| | osod y systemau a fydd yn caniatáu adrodd yn y dyfodol. |
| DP 6 | Derbyniwn pam na adroddir y wybodaeth yma eleni, gan fod y sesiynau ar ddigwydd. |
| DP 7 | Derbyniwn pam na adroddir y wybodaeth yma eleni, tra bod gwaith ar y gweill i osod y systemau a fydd yn caniatáu adrodd yn y dyfodol. |
| DP 8 | Derbyniwn pam na adroddir y wybodaeth yma eleni, tra bod gwaith ar y gweill i osod y systemau a fydd yn caniatáu adrodd yn y dyfodol. |
| DP 9 | Iawn. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda'r Gwasanaeth ar ein harolwg cwynion a fydd yn cael ei gynnal yn fuan iawn. |
| DP 10 | Iawn. |
| DP 11 | Derbyniwn fod hyn yn waith sydd ar y gweill. |
| DP 12 | Gofynnwn am ddata meintiol yn adroddiad blwyddyn nesaf os yn bosib plîs. |
| **Dadansoddiad o berfformiad fesul blaenoriaeth a tharged; a Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad** | |
| | Gofynnwn i sefydliadau wrth adrodd i ddarparu gwybodaeth dan y ddau deitl uchod. Dan y cyntaf gofynnwn i chi grynhoi perfformiad y sefydliad yn erbyn targedau'r Cynllun a blaenoriaethau'r sefydliad. Yna, dan yr ail, gofynnwn i chi nodi pa fesurau sydd mewn lle i gyhoeddi'r wybodaeth ar berfformiad sydd du mewn i adroddiad monitro blynyddol. Er enghraifft, arfer nifer o sefydliadau yw cyhoeddi'r adroddiad ar ei gwefan; bydd rhai hefyd yn defnyddio cyhoeddiadau'r sefydliad neu'r wasg Cymraeg lleol hefyd. |